



Bwletin GwE

CYDWEITHIO
DYSGU
LLWYDDO



CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL GwE

CLICIWCH
YMA

NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

Ysgrifennu: Cynradd oedran 8-11

DATBLYGU'R DAITH YSGRIFENNU YN EICH YSGOL

Yn ystod y rhaglen undydd hon, byddwn yn edrych ar sut i adeiladu'r camau bach i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i greu ysgrifenywyr pwrpasol ac effeithiol yn eich ysgol. Yn benodol, byddwn yn edrych ar sut mae sgiliau llafaredd ac ysgrifennu yn rhyngddibynol a sut, trwy gryfhau llafaredd, y byddwch yn creu ysgrifenywyr mwy effeithiol.

Amcanion y cwrs:

- Meddu ar ddealltwriaeth ddofnach o'r broses ysgrifennu a chynnydd dysgwyr
- Meddu ar ddealltwriaeth ddofnach o sut i ddefnyddio llafaredd i wella ysgrifennu
- Gallu defnyddio asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol i gefnogi cynnydd mewn ysgrifennu
- Eich arfogi i allu cynllunio cyfleoedd ysgrifennu cyfoethog a phwrpasol ar draws y cwricwlwm
- Gallu creu amgylchedd ysgrifennu cefnogol

[CYMRAEG: 13/02/2025 | 9:00-15:30 | Penrallt, Caernarfon](#) [SAESNEG: 11/02/2025 | 9:00-15:30 | Linden House, Yr Wyddgrug](#)

Sgiliau Disgyblaethol – Ffocws MDaPh: Ysgolion Uwchradd

CYD-WEITHWYR UWCHRADD: Angen cymorth i adnabod cyfleoedd trawsgwricwlaidd cyfoethog yn eich Maes Dysgu a Phrofiad?

Disgrifiad/Deilliannau:

- Helpu'r MDaPh i gefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol o fewn eu disgyblaeth, a hynny mewn ffordd ddilys.
- Datblygu dealltwriaeth arweinwyr canol ac ymarferwyr dosbarth o sut mae sgiliau llafaredd, darllen, rhifedd a digidol yn rhan annatod o lwyddiant disgyblion wrth wneud cynnydd yn eu disgyblaeth.
- Rhoi cyfle i ymarferwyr weithio efo YCG pynciol a sgiliau, a rhwydweithio efo arbenigwyr pwnc tebyg.

[Manylion llawn a chofrestru ar gael yma.](#)

Newyddlen GwE Digidol

Am y newyddion diweddaraf gan GwE Digidol, [cliciwch yma.](#)



Bryn Eirias, Ffordd Abergele,
Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



Canolfan Cefnogaeth GwE



@GwEGogleddCymru



post@gwegogledd.cymru



www.gwegogledd.cymru



Cynnig Proffesiynol GwE



Bwletin GwE

Gweithdai ar gyfer ymarferwyr Meithrin/Derbyn ac ymarferwyr Blynyddoedd 1, 2 a 3



CYNLLUNIO CYFLEOEDD PWRPASOL I DDISGYBLION DDATBLYGU SGILIAU LLYTHRENNEDD MEWN SEFYLLFAOEDD BYWYD GO IAWN, GAN DDEFNYDDIO TECHNOLEG DDIGIDOL YN EFFEITHIOL I GYFOETHOGI'R DYSGU

Addas ar gyfer: athrawon, cymorthyddion a chydlynwyr Iaith a Llythrennedd

Disgrifiad/ Deilliannau:

- Datblygu dealltwriaeth bellach o gynllunio effeithiol i sicrhau cynnydd wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd a digidol disgyblion.
- Datblygu dealltwriaeth bellach o arferion effeithiol gan rannu enghreifftiau o brofiadau dysgu y gellir eu darparu mewn ysgolion.

GWEITHDY UNDYDD: 9:15 -15:30 | ** NI DDARPERIR CINIO**

MEITHRIN / DERBYN

BLYNYDDOEDD 1, 2 A 3

ATHRAWON NEWYDD GYMHWYSO [ANG]

Cynnig Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol ANG: Tymor 2 [2025]

Gellir cael mynediad i'r sesiynau byw isod drwy gofrestru ar [Eventbrite](#)

SESIWN	HYFFORDDIANT	DYDDIAD	LLEOLIAD	DARPARWYR	CYFRWNG
3	Challenging Behaviour	11/02/2025	Prifysgol Wrecsam	Gavin Cass	ENGLISH
4	Ymddygiad Heriol	13/02/2025	Clwb Rygbi, Caernarfon	Gwyn Owen / Ieuan Jones	CYMRAEG
5	Digital Competence	11/03/2025	Business Centre, Conwy	Hywel Roberts	ENGLISH
6	Cymhwysedd Digidol	12/03/2025	Clwb Rygbi, Caernarfon	Gwion Clarke	CYMRAEG

Mae'r cyflwyniadau o'r sesiynau cyntaf ar gael ar ein gwefan. [Cliciwch yma.](#)

LLWYBR DYSGU I GYMORTHYDDION ADDYSGU / LIDGA

Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r Rhaglen Ymsefydlu i Gynorthwywyr Addysgu i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd.

Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus iddyn nhw ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion sut i gofrestru, [cliciwch yma.](#)



PROSIECTAU YMCHWIL A GWERTHUSO

Prosiect Gwreiddio Ymchwil ac Ymholi mewn Ysgolion [EREiS]

ARIAN AR GAEL I YSGOLION

A oes gan eich ysgol chi ddiddordeb mewn datblygu 'dulliau ar sail tystiolaeth' i wella'r ddarpariaeth?

A oes gennych chi ddiddordeb mewn gweithio gydag ymchwilwyr prifysgol i ddefnyddio rhai cysyniadau allweddol a syniadau i fireinio a gwella ansawdd eich prosesau hunan arfarnu?

[Cliciwch yma am ragor o wybodaeth.](#)



Astudiaethau Achos Rhaglen Partneriaeth Ysgolion - Dathlu llwyddiant partneriaethau rhanbarth GwE

Ers 2018, mae GwE wedi cydweithio gyda dros hanner ysgolion y rhanbarth i ddatblygu systemau adolygu cymheiriaid a chefnogi gwelliant effeithiol. Mae'r bartneriaeth effeithiol gyda'r Education Development Trust wedi sicrhau bod staff mewn dros 250 o ysgolion ar draws y gogledd wedi cael hyfforddiant o'r radd uchaf i ddatblygu medrau fel adolygwyr cymheiriaid a hwyluswyr gwelliant ymysg eu staff. Bellach, drwy waith Uwch Swyddog Ymchwil yr EDT, mae astudiaethau achos yn dadlennu llwyddiant rhai o bartneriaethau Ysgolion y Gogledd wedi eu cyhoeddi ar wefan y RHPY.

Cliciwch yma i weld astudiaethau achos ysgolion GwE: [SPP impact stories GwE - Education Development Trust](#)



Y GYMRAEG

Y Gymraeg – Cynllunio'n Strategol: Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth

Cyfle i benaethiaid ac arweinwyr gryfhau eu dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn eu hysgolion. Cwrs penodol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn cael ei gynneg yn draws-ranbarthol.

[Ysgolion cyfrwng Cymraeg - 06/03/2025](#)  **DYDDIAD NEWYDD**

Cyrsiau Sabothol Iaith Gymraeg

CWRS LEFEL MYNEDIAD I GYNORTHWYWYR DOSBARTH MEWN YSGOLION CYNRADD CYFRWNG SAESNEG

[Cwrs 5 wythnos wyneb yn wyneb yn y Ganolfan Iaith yn Llanelwy: 02/06/2025 – 04/07/2025](#)



DYFODOL BYD-EANG: IEITHOEDD RHYNGWLADOL

Newyddlen Ieithoedd Rhyngwladol GwE: [CYNRADD](#) | [UWCHRADD](#)



SECTOR UWCHRADD

Cyfres gweminarau: *A Taste of Languages: Hanesion Ffrangeg a Saesneg* - Richard Tallaron, *Power Language*

DYSGU PROFFESIYNOL | 3 GWEMINAR x 1 AWR O HYD - 15:45–16:45 AR-LEIN A RHITHIOL | DYDDIADAU ISOD

Cyfle i edrych ar gysylltiadau rhwng ieithoedd a gweithgareddau ymarferol i'w defnyddio yn y dosbarth. Bydd Richard Tallaron yn mynd â chi ar wibdaith dros 2000 o flynyddoedd i edrych ar rai o'r hanesion sydd wedi dod â Ffrangeg a Saesneg yn agos at ei gilydd. Bydd Richard yn sôn am ddylanwadau'r Celtaid, William y Concwerwr ac wrth gwrs franglais...

SESIWN 1: GWREIDDIAU IAITH - 11/03/2025 SESIWN 2: 1066 A THU HWNT - 09/04/2025 SESIWN 3: CHWEDL DWY DAFOD - 15/05/2025

Anfonwch e-bost at sioned.harold@sewaleseas.org.uk i i gofrestru ar gyfer y gweminarau. Bydd y dolenni 'Zoom' yn cael eu hanfon atoch yn nes at ddyddiad y sesiwn gyntaf.



CODI PROFFIL IEITHOEDD A PHROFIADAU DYSGU

Cystadleuaeth Fideo Cerddoriaeth Bop Ffrangeg Institut Français 2025

Llwyfan chwareus a chreadigol i'ch myfyrwyr [7 i 18 oed] ddangos eu gwybodaeth am Ffrangeg.

Dysgwch fwy am y gystadleuaeth [yma](#). [Manylion yn Saesneg]. Cofrestrwch [yma](#) erbyn **16/03/2025**.



NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU



[Cliciwch yma](#) i gael eich cyfeirio at wefan Consortia Addysg Cymru sy'n darparu gwybodaeth am ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol trawsranbarthol i holl staff Cymru.

Mentoriaid Sefydlu a Dilyswyr ANG

TREFNIADAU SEFYDLU ANG AR GYFER MENTORIAID SEFYDLU A DILYSWYR SEFYDLU

[Cliciwch yma](#) i wyllo recordiad o'r sesiynau gan Dîm Sefydlu ANG y Consortia a Chyngor y Gweithlu Addysg.

Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru Trawsranbarthol

[Dilynwch y ddolen i recordiadau a chyflwyniadau PowerPoint cyfres dysgu proffesiynol trawsranbarthol 2023/24 ar gyfer y Meysydd Dysgu a Phrofiad.](#)



GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL



[Cynllun Doctoriaid Yfory, Deintyddion Yfory a Gweithwyr Iechyd Yfory 2025](#)

Mae ffenestr gofrestru ar gyfer cynlluniau **Doctoriaid Yfory, Deintyddion Yfory a Gweithwyr Iechyd Yfory**, ar gyfer 2025 bellach wedi agor!

CYNLLUN DOCTORIAID YFORY

Mae'r cynllun yn agored i ddisgyblion blwyddyn 12 ac israddedigion sydd am wneud cais i astudio Meddygaeth yn y brifysgol.

Drwy fod yn rhan o'r cynllun bydd yr aelodau yn derbyn cefnogaeth arbenigol gan staff Ysgolion Meddygol Prifysgol Caerdydd, Abertawe a Bangor. Yn ychwanegol, o sicrhau presenoldeb o 70% ar gyfer yr holl sesiynau, bydd Ysgol Feddygol Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Bangor yn gwarantu cyfweliad.

DEINTYDDION YFORY

Mae'r cynllun yn agored i ddisgyblion blwyddyn 12 ac israddedigion sydd am wneud cais i astudio Deintyddiaeth yn y brifysgol.

Drwy fod yn rhan o'r cynllun bydd yr aelodau yn derbyn cefnogaeth arbenigol gan staff Ysgol Ddeintyddol Prifysgol Caerdydd. Yn ychwanegol, o sicrhau presenoldeb o 70% ar gyfer yr holl sesiynau, bydd Ysgol Ddeintyddol Prifysgol Caerdydd yn gwarantu cyfweliad.

CYNLLUN GWEITHWYR IECHYD YFORY

Mae cynllun Gweithwyr Iechyd Yfory wedi ei anelu at ddisgyblion blwyddyn 12 ac israddedigion, sydd am wneud cais i astudio pynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd, yn benodol Bydwreigiaeth, Fferylliaeth, Therapi Iaith a Lleferydd a Ffisiotherapi. Bydd y cynllun yma yn helpu'r aelodau gyda'r broses ymgeisio a byddant yn derbyn cefnogaeth arbenigol gan staff prifysgolion Caerdydd / Abertawe / Met Caerdydd / Bangor / Wrecsam, yn ogystal â myfyrwyr presennol.

Bydd y gefnogaeth ar y tri chynllun uchod yn rhad ac am ddim i'r aelodau a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofynnir yn garedig i chi sôn wrth eich disgyblion am y cyfle yma a bod rhaid iddynt lenwi'r ffurflen isod erbyn 3 Mawrth 2025, i sicrhau eu lle ar y cynllun.

<https://forms.office.com/e/TcrDv7yQDc>





[Gwasanaethau Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel](#)

Mae e-sgol a Hwb yn dod ynghyd i ddarparu gwasanaeth ar gyfer y cynradd a'r uwchradd. Thema Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yw 'Rhy dda i fod yn wir? Diogelu eich hun ac eraill rhag sgamiau ar-lein'.

[Cofrestrwch eich diddordeb i ymuno â'r gwasanaeth ar ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, 11/02/2025.](#)

[Prosiect Gwyddoniaeth](#)

Diolch yn fawr i dros 120 o ysgolion a ymunodd â sesiwn gyntaf Prosiect Gwyddoniaeth e-sgol a SparkLab. Dechreuodd Mel a Rhi dywys yr athrawon a'r dysgwyr trwy ymholiad gwyddonol.

Edrychwn ymlaen at barhau gyda'r prosiect ddydd Mercher.

Gallwch wyllo'r sesiwn gyntaf yma: <https://bit.ly/GwyddoniaethScience>

[Carlam Cymru](#)

[Cliciwch yma](#) am y diweddaraf gan Carlam Cymru.



[Academi Frenhinol Peirianeg – Prosiectau, Adnoddau STEM a DPP ar-lein](#)

Mae'r Academi Frenhinol Peirianeg, drwy Brosiect Peirianeg y Cymoedd [WVEP], wedi datblygu set o 10 adnodd her STEM i'w defnyddio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. [Manylion llawn yma.](#)



[Digwyddiad dysgu ymarferol i athrawon](#)

 17/02/2025 | 9:30–15:15  PRIFYSGOL CYMRU, BANGOR  [COFRESTRU](#)

Technolegau datblygol, gan gynnwys profiadau rhyngweithiol 360°, adnoddau a yrrir gan AI, a thechnegau sgrin werdd arloesol. Cyfraniad o £200.00 [gan gynnwys TAW] fesul mynychwr tuag at staff cyflenwi [\[gweler yr hysbyseb am fanylion\]](#).

[AI Cyfres Lab Dysgu Ar-lein](#)

• [‘Demonstrating AI: Examples of Artificial Intelligence in Teaching and Learning’](#):
[11/03/2025 | 16:30-18:00](#)



[Wythnos Croeso i Dy Bleidlais 2025](#)

Mae Wythnos Croeso i'ch Pleidlais yn rhoi amser yn y flwyddyn i athrawon ac addysgwyr ddechrau'r sgwrs gyda'u pobl ifanc.

Am fwy o wybodaeth am Wythnos Croeso i'ch Pleidlais (10fed – 16 Mawrth 2025) gweler [Wythnos Croeso i Dy Bleidlais 2025 | Electoral Commission](#)



[Cystadleuaeth Y Criw Mentrus i Ysgolion Cynradd](#)

Bwriad Cystadleuaeth Y Criw Mentrus yw ysbrydoli creadigrwydd plant a'u sgiliau datrys problemau a gweithio mewn tîm, a hynny mewn awyrgylch hwyliog. Eleni bydd cyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan ennill gwobrau ariannol i'w hysgol! [Manylion llawn ar gael yma.](#)